

## COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDU

### BWLETIN PCC CYMRU

Rhif 6 – 23 MAWRTH 2012

Mae'r bwletin hwn yn un o gyfres o ddiweddariadau rheolaidd i'ch hysbysu o ddatblygiadau ynghylch cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn 2012.

Yn y rhifyn hwn:

- **Digwyddiadau Ymgysylltu Partner** – adborth cychwynnol o'r digwyddiadau PCC a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 1af Mawrth a Llandudno ar 8fed Mawrth;
- **Arolwg ar-lein** i helpu wrth ffurfio cyfathrebiadau;
- **Cadarnhad** ar yr angen i baneli'r heddlu a throseddau fod yn 'gytbwys';
- **Ymgynghoriad** ar wasanaethau ar gyfer dioddefwyr;
- **Prosiect Eiriolwr Gwasanaeth i Ddioddefwyr (VSA)**;
- **Adolygiad Rhaglen Bontio PCC y Swyddfa Gartref**; a
- **Gwybodaeth a chyfathrebu.**

### Digwyddiadau Ymgysylltu Partner

Rydym wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau a gynlluniwyd i hysbysu cynllunio a pharatoadau lleol ar gyfer y cyfnod pontio i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (PCCau) gan ddarparu cyfle i ystyried y berthynas strategol rhwng PCCau a'u partneriaid. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnig cyfle i'r partneriaid gael gwybodaeth bellach ar y diwygiad ac i drafod materion ar y cyd gyda swyddogion llywodraeth. Yng Nghymru, cynhalion ni ddau ddigwyddiad yng Nghaerdydd ar 1af Mawrth a Llandudno ar 8fed Mawrth.

Rhannwyd y digwyddiadau'n ddau weithdy gwahanol yn trafod:

- **Rôl awdurdodau lleol** wrth sefydlu Paneli'r Heddlu a Throseddau (PCPau), yr anghenion am eu sefydlu ac aelodaeth;
- **Pwerau a rôl y paneli**; a
- **Sut yr ymdrinir â chwynion.**
- **Gweithio mewn partneriaeth** – sut mae partneriaid lleol yn cydweithio i baratoi am PCCau ac i drafod rôl comisiynu'r PCCau ac archwilio i'r hyn y gallai ei olygu ar lefel lleol.

Daeth pob diwrnod i ben â thrydydd sesiwn ar gyfer arweinwyr awdurdodau lleol a'r heddlu yn unig, yn ystyried y perthnasau allweddol rhwng arweinwyr PCC, yr heddlu ac awdurdodau lleol.

Roedd yr ymateb i'r digwyddiadau yng Nghymru'n gadarnhaol iawn, â mwyafrif mawr y cynrychiolwyr yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref a'r cyfle ar gyfer trafodaethau lleol yn gadarnhaol. Roedd oddeutu 175 o gynrychiolwyr wedi mynychu'r ddau ddigwyddiad.

Roedd trafodaethau manwl ar yr ymagweddau lleol tuag at baratoi ar gyfer cyflwyno PCCau a sefydlu PCPau. Dyma rai o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r digwyddiadau yng Nghymru:

- mae rhaglenni pontio mewn llawer o ardaloedd yn cynyddu, ond mae angen i negeseuon gael eu dosbarthu'n ehangach i'r amrediad o bartneriaid lleol;
- ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen am waith paratoi gan bartneriaid ar gyfer Cynllun cyntaf yr Heddlu a Throseddu o ystyried y terfyn amser Mawrth 31 2013 ar gyfer ei gyhoeddi;
- efallai fod heriau arwyddocaol yn bodoli ynghylch yr angen i baneli'r heddlu a throseddu fod yn gytbwys, ac mae partneriaid wedi gofyn am fwy o gadarnhad am yr hyn mae'n ei olygu.

Rydym wedi ymateb i'r cais am ragor o wybodaeth am y mater allweddol o gydbwysedd paneli yn y bwletin hwn.

Darperir adroddiad manylach ar themâu a materion cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r digwyddiadau mewn bwletinau dilynol.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn diweddarau'r Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan, ac er mwyn hysbysu unrhyw wybodaeth byddwn yn ei chynhyrchu yn y dyfodol. Gwefan PCC: <http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners/>

### **Ffurio'n cymunedau gyda chi – Arolwg Ar-lein**

Rydym wedi cynhyrchu arolwg ar-lein byr a fydd o gymorth inni wrth ddatblygu'n cyfathrebu â chi. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthym beth yw'ch anghenion gwybodaeth a sut y byddai'n well gennych ei derbyn. Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 15 munud i'w gwblhau.

Gallwch gwblhau'r arolwg yma:

<http://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/v.asp?i=46969lyjxy>

## Paneli'r Heddlu a Throseddu

### Amcan Penodi Cytbwys – Cadarnhad Cyfreithiol

Yng Nghymru, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn gyfrifol am sefydlu Paneli'r Heddlu a Throseddu (PCPau). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y paneli hyn yn gywir ar gyfer yr ardal leol mae hi wedi gwahodd awdurdodau lleol a leolir yng Nghymru i gymryd prif rôl yn y broses hon. Wrth enwebu aelodau panel mae rhaid i awdurdodau lleol ystyried, cyn belled ag ymarferol, yr amcan penodi cytbwys a osodir yn y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i PCPau fod yn gytbwys o ran daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, a sgiliau, gwybodaeth a phrofiad aelodau'r panel. Gosodir cadarnhad ar y sefyllfa gyfreithiol benodol, a'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer partneriaid lleol wrth wneud eu penderfyniadau ar aelodaeth panel isod.

Mae Gweinidogion wedi bod yn glir mai'r trefniadau panel gorau fydd y rhai hynny a benderfynir yn lleol. Mewn llawer o achosion bydd cyflawni cydbwysedd yn heriol, yn arbennig ble ni ellir unioni'r anghydraddoldebau canfyddedig trwy gyfethol ychwanegol o aelodau etholedig. Wrth gydnabod hwn, **mae'r Ddeddf yn datgan yn benodol bod rhaid diogelu'r amcan penodi cytbwys "cyn belled ag ymarferol"**. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol angen sail resymegol gadarn er mwyn cyfiawnhau eu penderfyniad i'r cyhoedd a'u cyfoedion.

- **Cydbwysedd daearyddol – “cynrychioli pob rhan o ardal berthnasol yr heddlu”**
- Dylai aelodaeth gynghorwyr y panel adlewyrchu daearyddiaeth a maint poblogaeth ardal yr heddlu. Yn y lle cyntaf, mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio cyflawni hwn gan sicrhau y cynrychiolir pob awdurdod lleol yn yr ardal ar y panel.
- **Cydbwysedd gwleidyddol – “cynrychioli cynnwys gwleidyddol yr awdurdodau lleol perthnasol (wrth ei gymryd ynghyd)”**
- Dylai aelodaeth cynghorwyr y panel, wrth ei chymryd ynghyd, adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol ardal yr heddlu. Gallai awdurdodau lleol geisio cyflawni hwn, yn y lle cyntaf, trwy ystyried y gyfran o gynghorwyr o bob plaid gwleidyddol ar draws ardal yr heddlu. Yr ymagwedd hon yw'r agosaf at ysbryd y ddeddfwriaeth gan adlewyrchu'r ymagwedd a gymerir tuag at aelodaeth o'r awdurdod heddlu.
- **Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad**
- Dylai pob penodiad i'r panel, gynghorwyr ac annibynwyr ill dau, gael ei wneud yn y cyd-destun o sicrhau bod gan y panel y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i gyflawni'i swyddogaethau.

### Ymgynghoriad ar wasanaethau ar gyfer dioddefwyr troseddu

Cyhoeddwyd papur ymgynghori “Unioni ar gyfer dioddefwyr troseddu” gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ar 30 Ionawr. Mae'r papur yn cyflwyno cyfres o ddiwygiadau arfaethedig i helpu cyflawni gwasanaeth mwy cydlynol ar gyfer dioddefwyr troseddu. Ymhlith y cynigion yw'r awgrym y caiff y mwyafrif o wasanaethau ar gyfer dioddefwyr eu comisiynu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o 2014 ymlaen. Bydd rhai gwasanaethau arbenigol o hyd (fel cymorth i deuluoedd galarus dioddefwyr dynladdiad a llinellau cymorth ar gyfer

dioddefwyr trais domestig a stelcian) y mae'n gwneud synnwyr i'w comisiynu'n genedlaethol, ac mae'r ddogfen yn ystyried yr opsiynau i'w gwneud felly. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar <http://justice.gov.uk/consultations/victims-witnesses-cp3-2012.htm> a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 22 Ebrill.

Hefyd mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn ystod mis Mawrth er mwyn casglu amrediad eang o farnau ar y cynigion i gyd, o'r rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr a throstynt, i ddioddefwyr eu hunain.

### **Prosiect Eiriolwr Gwasanaethau Dioddefwyr (VSA)**

Mae'r brosiect Eiriolwr Gwasanaethau Dioddefwyr (VSA), a ariannir gan y Swyddfa Gartref ac a weithredir gan Gymorth i Ddioddefwyr, yn anelu at gefnogi'r newidiadau arfaethedig, yn arbennig yr angen yn Neddf PRSR 2011 i'r PCC gael barnau dioddefwyr troseddu. Mae dau ddeg dau o eiriolwr gwasanaethau dioddefwyr wedi bod yn gweithio ers llynedd i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau lleol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yn fwy ymwybodol o broblemau dioddefwyr. Erbyn diwedd Mai 2012, bydd y brosiect yn cyflwyno cyfres o adroddiadau lleol ar gyfer pob ardal heddlu i amlinellu'r cwrpas o wasanaethau presennol ar gyfer dioddefwyr, gan amlygu prif anghenion dioddefwyr ynghylch gwasanaethau. Hefyd mae'r brosiect VSA yn sefydlu cysylltiadau â'r rhaglen Cymunedau Dyfodol Diogelach (gweler y bwletinau blaenorol) a fydd yn cefnogi sefydliadau VCSE rheng-flaen wrth iddynt weithredu ar draws meysydd blaenoriaethol y Swyddfa Gartref, wrth baratoi ar gyfer dyfodiad PCCau.

#### **I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**

Rheolwraig prosiect genedlaethol VSA: Rachel Griffin –

[Rachel.Griffin@victim support.org.uk](mailto:Rachel.Griffin@victim support.org.uk)

Rheolwraig prosiect Cymunedau Dyfodol Diogelach: Linda Pinzani-Williams –

[LindaPizani.Williams@clinks.org](mailto:LindaPizani.Williams@clinks.org)

Arweinydd polisi PS: Sara Featherstone, Uned Ddiogelwch y Gymuned –

[sara.featherstone@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:sara.featherstone@homeoffice.gsi.gov.uk)

### **Adolygiad Rhaglen Bontio PCC**

Cwrddodd Bwrdd Nawdd Pontio'r PCC sy'n goruchwylio cyflawniad y Rhaglen, ar 28fed Chwefror 2012. Cadeirir y bwrdd gan y Gweinidog Plismona a Chyfiawnder Troseddol Nick Herbert ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o amrediad o sefydliadau gan gynnwys ACPO, APA, LGA, MoJ, a DCLG. Mae'r rhaglen yn ceisio cyflawni cyfnod pontio effeithiol, cydlynol ac esmwyth i PCCau.

Ar ôl cyrraedd carreg filltir arwyddocaol yn ddiweddar, (sefydlu Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a throseddu), ymgwymerwyd ag adolygiad o'r rhaglen a thrafodwyd casgliadau gan

y bwrdd. Dangosodd yr adolygiad bod y rhaglen yn cychwyn ar gyfnod newydd o weithredu a'i fod yn amserol i adolygu prosiectau ac amcanion.

Cynigiwyd strwythur newydd y rhaglen a chytunwyd arno gan y Bwrdd Nawdd â phrosiectau ar Lundain a Phrotocol yn cau yn sgil cwblhau'r gwaith sylweddol yn y meysydd hyn. Gan y bydd cyfathrebu'n dal i fod yn allweddol yn y misoedd nesaf wrth ddynesu at yr etholiadau, crëwyd gweithgor newydd er mwyn canolbwyntio ar hwn ac ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Bydd y strwythur newydd ac amcanion adolygedig yn sicrhau bod y Bwrdd Nawdd yn cyflawni etholiadau llwyddiannus a chyfnod pontio llyfn i PCCau.

## Gwybodaeth a chyfathrebu

Rydym yn cydnabod bod sefydlu rhaglen gyfathrebu cydgysylltiedig a chydlynol yn darparu cefnogaeth bwysig i bartneriaid wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno PCCau. Cychwynodd ein cyfathrebu yn ôl ym mis Tachwedd â chyhoeddiad 'un flwyddyn i fynd'. Ar yr adeg honno lansion ni adran benodol ar wefan y Swyddfa Gartref ar gyfer aelodau'r cyhoedd a'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn canfod rhagor am rôl y PCCau. Yma byddwch yn dod o hyd i'r dogfennau a gwybodaeth allweddol eraill sydd ar gael hyd yn hyn. Bydd yr adran hon yn tyfu dros gyfnod o amser.

<http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners>

Galluogodd y digwyddiadau lleol PCC inni ennill cyhoeddusrwydd â chyfryngau lleol â'r Gweinidog Plismona a Chyfiawnder Troseddol Nick Herbert yn aml yn gwneud dau neu dri gyfweiliad radio ar bob achlysur, a chyhoeddusrwydd yn y wasg leol. Mae hwn yn helpu wrth godi ymwybyddiaeth a symbylu diddordeb ymhlith y cyhoedd mewn ardaloedd lleol. Hefyd rydym wedi gweld ymgeiswyr yn eu cyflwyno eu hunain yn ystod y mis hwn gan eneradu cyhoeddusrwydd sylweddol.

Mae llyfryn wybodaeth ar gyfer ymgeiswyr posibl ar gael hefyd:

<http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/have-got-what-takes/got-what-it-takes>

Mae menywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phbol anabl heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi etholedig. Mae hwn yn gyfle i bobl o bob cefndir sefyll a gwneud gwahaniaeth. Os ydych yn datblygu negeseuon, yn meddwl am wneud unrhyw gyhoeddiadau neu gyhoeddi gwybodaeth ar eich gwefan, gall adran PCC gwefan y Swyddfa Gartref fod yn adnodd defnyddiol at y dibenion hyn <http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners>

Rydym yn anfon bwletinâu rheolaidd allan drwy gydol y cyflwyniad o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau er mwyn eich hysbysu. Byddwn hefyd yn ateb unrhyw ymholiadau neu gwestiynau a allai fod gennych. Cysylltwch â ni ar [PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk)

Croesawn eich sylwadau a chwestiynau drwy gydol y broses o ddatblygu a gweithredu.